Dŵr Cymru
Welsh Water

White water

What causes white water?

Air in water
Milky, chalky or cloudy water is due to lots of air bubbles in the water, which are so small it makes the water appear white. The air bubbles are quite harmless and will quickly clear.

But if it doesn't clear it could be that the mains water is affected, not just your property. There may have been work in the area, such as fixing a burst main. Air gets into the water after we've drained then refilled the system when we do the work and more air gets trapped in the water.

Cloudy water normally clears within 24 hours. If it's coming from the mains, the only way to clear it is to let it work its way through the system.

Scale in water
A fine scale can develop because of natural minerals that occur in the water. Heating water, particularly boiling, releases these and if you live in a hard water area, they appear as white flaky 'bits' or particles.

Is my water safe to drink?

Yes. The quality of the water we supply to you is not affected by air or scale. In fact, tap water always contains some dissolved air and without it, can have an unpleasantly flat or stale taste.

Useful tips

It's really easy to see if your white water is due to air or hardness particles in the water:

- Fill a clean glass with cold tap water — if the bubbles clear from the bottom up, then it's air.
- After clearing, if there's a fine layer of particles at the bottom of the glass, it's because of hardness. You'll be pleased to know that most of the water we supply is soft.
- If you've had air in the water for longer than 24 hours, we may need to come out and flush the mains water pipes to help it along its way. You can give us a call on the number below.

Need more information or advice?

dwrcymru.com
0800 052 0130

You can also visit the Drinking Water Inspectorate website at **dwi.gov.uk**.

Dŵr Cymru
Welsh Water

Dŵr gwyn

Beth sy'n achosi dŵr gwyn?

Aer yn y dŵr
Mae dŵr yn gallu edrych yn llaethog, yn galchog neu'n niwlog am fod llawer o swigod aer bychain bach yn y dŵr sy'n gwneud iddo edrych yn wyn. Mae'r swigod yn ddigon diniwed, a byddan nhw'n clirio'n gyflym.

Os nad yw'r dŵr yn clirio, gallai hynny fod am fod y broblem yn effeithio ar y dŵr yn y brif bibell ac nid eich eiddo chi'n unig. Efallai bod gwaith wedi cael ei gyflawni yn eich ardal, fel gwaith i drwsio rhwyg yn y bibell. Mae aer yn mynd i'r dŵr ar ôl i ni ddraenio ac adlenwi'r system wrth weithio, sy'n golygu bod mwy o aer yn cael ei ddal yn y dŵr.

Mae dŵr niwlog yn clirio cyn pen 24 awr fel rheol. Os yw'r dŵr niwlog yn dod o'r brif bibell, yr unig ffordd o'i glirio yw gadael iddo weithio ei ffordd trwy'r system.

Calch yn y dŵr
Mae calch mân yn gallu datblygu oherwydd y mwynau naturiol sydd yn y dŵr. Mae cynhesu'r dŵr, yn enwedig ei ferwi, yn rhyddhau'r rhain, ac os ydych chi'n byw mewn ardal â dŵr caled, maen nhw'n gallu edrych fel caenau neu ronynnau gwyn.

A yw'r dŵr yn ddiogel i'w yfed?

Ydy. Nid yw aer neu galch yn effeithio ar ansawdd y dŵr. Yn wir, mae rhywfaint o aer tawdd mewn dŵr tap bob tro, a hebddo, gall y dŵr flasu'n fflat neu'n egr.

Awgrymiadau

Mae hi'n rhwydd canfod a yw'r dŵr yn wyn oherwydd aer neu ronynnau dŵr caled:

- Llenwch wydr glân â dŵr oer o'r tap – os yw'r swigod yn clirio o'r gwaelod i fyny, yna aer sydd yn y dŵr.
- Os oes haenen o ronynnau mân ar waelod y gwydr ar ôl iddo glirio, mae hynny oherwydd dŵr caled. Byddwch chi'n falch o glywed bod y rhan fwyaf o'n cyflenwadau ni'n ddŵr meddal (di-galch).
- Os oes aer wedi bod yn y dŵr am fwy na 24 awr, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddod allan i fflysio'r prif bibellau dŵr i helpu'r broses. Gallwch roi galwad i ni ar y rhif isod.

Angen rhagor o wybodaeth neu gyngor?

dwrcymru.com
0800 052 0130

Neu ewch i wefan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yn **dwi.gov.uk**.